

# Crynodeb Gwirio Ansawdd Uned Penderfyniadau Clinigol, Ysbyty'r Tywysog Siarl

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Rhagfyr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 21 Ionawr 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Uned Penderfyniadau Clinigol Ysbyty'r Tywysog Siarl fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae 28 o welyau yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol, sydd ar gyfer cleifion a gaiff eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu neu'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl i'w gweld ar frys mewn perthynas â salwch meddygol aciwt.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward ar 10 Rhagfyr 2020, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a staffio yn effeithiol, a'u bod yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r trefniadau hyn yn sgil COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel? Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut rydych yn sicrhau ei fod yn cynnal urddas ac yn rhoi cysur i'r cleifion? Pa newidiadau a wnaed i'r amgylchedd yn sgil COVID-19 i sicrhau ei fod yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr?
- Beth yw'r broses ar gyfer sicrhau bod llif cleifion drwy'r Uned Asesu yn amserol, yn

---

ddiogel ac yn effeithiol?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddiwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwysu neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym y bu'n rhaid i'r Uned Penderfyniadau Clinigol wneud addasiadau i'r amgylchedd ar ddechrau'r pandemig er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag y risg o drosglwyddo COVID-19. Yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol mae 16 o ystafelloedd unigol a thair cilfan â phedwar gwely ym mhob un ohonynt. Roedd pob ystafell unigol yn cael ei chyfarpar a'i heitemau ei hun, megis cyffiau pwysau gwaed a llenni untro, ac roedd y staff wedi symud eitemau diangen ym mhob rhan o'r uned i leihau'r gwaith glanhau yr oedd angen ei wneud. Roedd digon o le yn ardal pob cilfan i gadw pellter cymdeithasol heb fod angen symud unrhyw welyau. Rhoddwyd gwybod i ni fod arwyddion wedi cael eu harddangos o gwmpas yr uned er mwyn atgoffa'r cleifion am bwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal, cyfyngir bellach ar nifer yr aelodau o staff sy'n cael dod i mewn i ystafelloedd penodol ar unrhyw adeg.

Cawsom dystiolaeth o asesiad risg a gynhaliwyd i ddisgrifio'r mesurau sydd eu hangen er mwyn helpu i reoli llif a gofal diogel cleifion heb COVID-19 a chleifion â COVID-19 yn yr uned. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau uwchgyfeirio i sicrhau nad yw'r cleifion yn cael eu nyrsio mewn coridorau nac mewn ambiwlansys a bod trefniadau ar waith i nyrsio cleifion yn ddiogel yn ôl eu statws COVID-19, er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo drwy'r uned.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ei asesu wrth gael ei dderbyn a'i fod yn cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu drwy gydol ei arhosiad yn yr uned. Ers dechrau COVID-19, darparwyd dŵr potel i gleifion yn lle jygiau, a defnyddiwyd platiau a chyllyll a ffyrc untro amser bwyd.

Gwnaethom edrych ar ddata digwyddiadau ar gyfer mis Tachwedd 2020 a gwelsom na fu unrhyw achosion o gleifion yn datblygu niwed pwysu tra roeddent yn yr uned. Er bod nifer bach o gleifion wedi cwmpo tra roeddent yn yr uned, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw gleifion wedi cael niwed. Dywedwyd wrthym y byddai'r uned yn ymchwilio i gwympiadau difrifol ac yn eu cyfeirio at y Panel Craffu ar Gwympiadau er mwyn deall beth ddiwyddodd ac i ddysgu o'r digwyddiad. Cawsom gylchlythyr staff diweddar a roddodd wybod i'r staff y

---

byddent yn y dyfodol yn cael gwybod faint o gwympiadau oedd wedi bod, achosion o niwed pwyso ac unrhyw faterion eraill y mae'r cleifion wedi eu profi wrth gael gofal yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol. Mae hwn yn gam cadarnhaol a byddai AGIC yn disgwyl i unrhyw wersi a ddysgwyd o ddiwyddiadau o'r fath hefyd gael eu rhannu fel rhan o'r fenter newydd hon.

Gwnaethom drafod yr heriau a wynebwyd yn ystod pandemig COVID-19 pan osodwyd cyfyngiadau cenedlaethol ar ymwelwyr mewn lleoliadau gofal iechyd. Dywedwyd wrthym mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniatwyd ymwelwyr, megis ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael gofal diwedd oes. Cynhelir asesiad risg ar gyfer yr ymweliadau hyn a gofynnir i ymwelwyr lofnodi ffurflen i gydnabod eu cyfrifoldebau o ran cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo, a'r risgiau sy'n codi yn ystod eu hamser yn yr uned. Mae cleifion sy'n ddigon iach i wneud hynny wedi gallu defnyddio iPads a ddarperir gan yr uned i gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'u teulu neu ofalwyr; caiff yr iPads eu glanhau ar ôl cael eu defnyddio bob tro. Mae'r staff wedi gwneud pob ymdrech i gysylltu'n rheolaidd ac yn agos â theuluoedd a gofalwyr cleifion sâl dros y ffôn, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn amserol. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod y baich ychwanegol y bydd hyn wedi'i roi ar y staff yn ystod cyfnod sydd eisoes yn brysur ac yn llawn straen.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod prif nyrs a rheolwr ward yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn cynnal Archwiliadau Adolygu Pwynt Gofal rheolaidd. Rhoddwyd enghreifftiau i ni o archwiliadau blaenorol a oedd yn dangos mai 44 y cant oedd y gyfradd gydymffurfio ym mis Gorffennaf 2019 a 63 y cant oedd y gyfradd gydymffurfio ym mis Chwefror 2020. Er gwaethaf y gwelliant, gwelsom fod problemau tebyg yn y ddau archwiliad, megis yr angen am dystiolaeth well o ran cynllunio i ryddhau cleifion. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y cymerir camau mewn perthynas ag unrhyw broblemau a nodwyd yn yr Archwiliadau Pwynt Gofal mewn modd amserol a byddai AGIC yn disgwyl gweld gwelliant mewn cyfraddau cydymffurfio mewn archwiliadau yn y dyfodol yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol.

## **Atal a rheoli heintiau**

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom drafod y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol i reoli achosion posibl COVID-19 mewn perthynas â'i phrosesau derbyn a rhyddhau diogel. Caiff cleifion eu profi cyn ac wrth gael eu derbyn, ac wedyn cânt eu gwahanu yn ôl eu statws COVID-19. Caiff y cleifion y cadarnheir neu yr amheuir bod COVID-19 arnynt eu hynysu mewn ystafelloedd unigol ac mae cleifion sydd wedi cael prawf COVID-19 negatif naill

---

ai'n cael ystafell neu wely yn un o'r cilfannau; cadarnhaodd rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward na fyddai'r cleifion a gafodd ganlyniadau positif a negatif yn cymysgu yn ardaloedd y cilfannau. Caiff statws COVID-19 pob claf ei ddangos yn glir ar ddrws pob ystafell i sicrhau bod y staff sy'n gweithio sifftiau gwahanol yn ymwybodol o hynny. Mae'n rhaid i gleifion gael dau brawf negatif cyn cael eu rhyddhau. Caiff siartiau llif sy'n amlinellu'r prosesau i'r staff eu dilyn er mwyn rhyddhau cleifion yn ddiogel eu harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr uned, ac maent ar gael ar y fewnwyd.

Dywedwyd wrthym fod canllawiau cenedlaethol ar PPE priodol ar gyfer lleoliadau gofal iechyd wedi cael eu harddangos ar gyfer y staff ar yr hysbysfwrdd a bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE yn ddiogel. Cadarnhaodd rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward fod PPE wedi bod ar gael i'r staff ddarparu gwasanaeth nyrsio ataliol diogel i'r cleifion sydd wedi cael prawf COVID-19 positif yn yr uned. Caiff gwiriadau dyddiol o stoc PPE eu cynnal gan y staff er mwyn sicrhau nad oes prinder yn yr uned. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod hapwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y ward, a oedd yn cynnwys archwiliadau penodol sy'n gysylltiedig â COVID-19, megis arsylwi ar y staff a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n briodol â rheolau gwisgo PPE.

Cawsom wybod bod y staff yn cael eu monitro'n ddyddiol am symptomau COVID-19 ac y cynigir prawf i unrhyw aelod o'r staff sy'n arddangos symptomau a'i bod yn ofynnol iddynt fynd adref ac ynysu. Mae cynlluniau ar waith ar hyn o bryd i gyflwyno'r brechlyn newydd i unrhyw aelod o'r staff sy'n dymuno cael un.

Dywedwyd wrthym fod yr Uned Penderfyniadau Clinigol wedi cael cymorth ac arweiniad dyddiol bron gan Dîm Canolog Atal a Rheoli Heintiau y Bwrdd Iechyd ers dechrau COVID-19. Mae hyn wedi bod yn allweddol iawn ar gyfer yr Uned Penderfyniadau Clinigol oherwydd y nifer mawr o gleifion â COVID-19 y mae'r uned yn gofalu amdanynt ac er mwyn sicrhau bod safonau glendid yn cael eu cynnal ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae mwy o waith glanhau wedi bod yn yr uned ac mae oriau gwaith y staff cadw tŷ wedi bod yn hyblyg i ateb y newidiadau yn y galw yn ôl y mathau o gleifion a gaiff eu derbyn.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom dystiolaeth o archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol a gynhaliwyd yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol ym mis Gorffennaf 2020 a nodwyd mai 83 y cant oedd y gyfradd gydymffurfio. Fodd bynnag, amlygodd yr archwiliad broblemau tebyg mewn Archwiliadau Adolygu Pwynt Gofal blaenorol a gyflwynwyd i ni. Roedd y rhain yn canolbwyntio yn bennaf ar broblemau yn ymwneud â glendid, a chyflwr yr amgylchedd cyffredinol yn yr uned a'r gegin. Er bod rhai camau wedi'u cymryd mewn perthynas â hyn, nid yw AGIC yn gwbl sicr bod amgylchedd yr uned yn cael ei gynnal na'i lanhau i safon sy'n hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau da ac yn lleihau'r risg o haint. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd y cymerwyd camau pellach mewn ymateb i'r archwiliad ym mis Gorffennaf 2020. Yn ogystal, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod y systemau sydd ar waith ar hyn o bryd i fonitro a gwella safonau atal a rheoli heintiau yn yr uned yn briodol i sicrhau y caiff y safonau atal a rheoli heintiau gofynnol eu bodloni.

---

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom drafod y trefniadau a oedd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gymysgedd briodol o sgiliau a niferoedd staff yn yr uned yn ystod pob sifft. Caiff rotas y staff eu llunio rhwng chwech ac wyth wythnos cyn sifftiau fel arfer, a defnyddir HealthRoster fel adnodd electronig i reoli dewisiadau gwaith ac absenoldebau'r staff. Ers dechrau COVID-19, creffir yn ddyddiol ar ofynion staffio ym mhob rhan o Ysbyty'r Tywysog Siarl; cynhelir cyfarfodydd dair gwaith y dydd i drafod y pwysau sydd ar sicrhau bod gwelyau ar gael ym mhob rhan o'r safle. Cawsom wybod bod y staff wedyn yn cael eu hadleoli yn seiliedig ar anghenion i'r manau lle y nodwyd y risg uchaf ar unrhyw adeg yn ôl y gofyn.

Cadarnhaodd rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward y rhoddir gwybod am unrhyw ddigwyddiadau yn yr uned, megis cwmpadau, drwy system cofnodi digwyddiadau a rheoli risg electronig y bwrdd iechyd, sef Datix. Mae'r paneli perthnasol yn craffu ar ddigwyddiadau ac mae'r staff yn cymryd rhan yn yr adolygiad i sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw wersi a ddysgwyd. Defnyddir Datix hefyd i gofnodi asesiadau risg a gynhelir yn yr uned er mwyn helpu i flaenoriaethu a rhoi camau gweithredu a mesurau rheoli ar waith i leihau unrhyw risgiau dynodedig.

Gwnaethom siarad am y cymorth a gynigir i'r staff ers dechrau COVID-19. Mae'r staff wedi cwblhau asesiadau risg COVID-19 er mwyn helpu i ddiogelu iechyd a lles aelodau o'r staff a all wynebu mwy o risg o ddal yr haint a/neu a allai gael canlyniad andwyol pe baent yn dal yr haint. Cynhelir sgrymiau staff yn rheolaidd i drafod unrhyw broblemau ac i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r staff, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r dirwedd sy'n newid yn gyflym. Mae Tîm Llesiant canolog ar gael i'r staff yn y bwrdd iechyd er mwyn iddynt drafod unrhyw broblemau a allai fod ganddynt ac mae gwybodaeth am grwpiau llesiant amrywiol ar gael ar y fewnwyd.

Dywedwyd wrthym fod y broses o gasglu adborth cleifion wedi cael ei gohirio ar ddechrau COVID-19 am ei bod yn anodd casglu tystiolaeth o'r fath. Fodd bynnag, cynhaliwyd arolwg peilot dros y ffôn o gleifion a ryddhawyd o'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn ddiweddar sydd wedi helpu'r uned i nodi meysydd arfer da a chael sylwadau cadarnhaol sydd wedi rhoi hwb i forâl y staff. Disgwylir i benderfyniad gael ei wneud ynghylch p'un a gaiff yr arolwg ei gyflwyno'n rheolaidd. Byddai AGIC yn annog parhad yr arolwg er mwyn sicrhau ei fod hefyd yn helpu'r uned i nodi unrhyw broblemau a wynebwr gan gleifion a mynd i'r afael â nhw.

---

## **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym y bu defnydd uchel o staff asiantaeth yn yr uned yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod y nifer gofynnol o staff yn gweithio yno. Mae hyn wedi cael effaith ar yr aelodau o staff parhaol sydd wedi gorfod ymgymryd â thasgau ychwanegol, megis rhoi cyffuriau rheoledig i gleifion am na chaniateir i'r staff asiantaeth wneud hynny. Mae AGIC yn deall bod y niferoedd staffio ar gyfer yr uned wrthi'n cael eu hadolygu. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC nad yw lefelau staffio yn effeithio ar effeithiolrwydd y gofal a ddarperir i gleifion ar hyn o bryd, ac y bydd unrhyw newidiadau yn helpu i leihau'r pwysau a wynebir gan y staff presennol.

Gwelsom mai 63 y cant oedd y gyfradd gydymffurfio gyffredinol ar gyfer hyfforddiant gorfodol. Mae AGIC yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan leoliadau gofal iechyd i sicrhau bod gofynion hyfforddiant y staff yn cael eu bodloni yn ystod COVID-19. Fodd bynnag, dylai'r bwrdd iechyd ystyried pob opsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r risg nad yw'r staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf a darparu tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis bod y gyfradd gydymffurfio wedi gwella. Ar ben hynny, dywedwyd wrthym nad yw staff yn yr uned yn cael amser i gwblhau hyfforddiant yn ystod eu sifftiau a bod disgwyl iddynt gwblhau'r hyfforddiant yn eu hamser eu hunain yn aml. Gellir digolledu'r staff am hyn, ond rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau hyn ac ystyried a yw hyn er budd pennaf iechyd a lles y staff. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried neilltuo amser i'r staff yn ystod eu sifftiau dan gontract er mwyn helpu'r staff gyda'u dysgu a'u datblygiad, gan sicrhau y caiff yr amser pan nad ydynt yn gweithio ei ddiogelu.

Gwnaethom ofyn am gael gweld data ar gyfraddau cwblhau Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) blynyddol y staff a gwelsom fod y rhain yn hwyr ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff. Rhaid i'r gwasanaeth wella ei gydymffurfiaeth barhaus ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu y staff, a darparu tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis i ddangos bod pob adolygiad hwyr wedi'i gwblhau.

## **Llif Cleifion**

Ar gyfer Unedau Asesu, teimlai AGIC ei bod yn bwysig ystyried llif cleifion drwy'r adran. Nod hyn yw sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesu, eu derbyn a'u rhyddhau mewn modd amserol.

## **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom drafod yr heriau a wynebir gan y gwasanaeth yn ystod COVID-19 er mwyn sicrhau bod llif cleifion drwy'r uned yn amserol, yn ddiogel ac yn effeithiol o hyd. Cawsom wybod ei bod wedi bod yn anodd symud cleifion ymlaen o'r uned ar adegau, sydd wedyn wedi cael effaith ar dderbyn cleifion i'r uned. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn cael asesiadau ar unwaith a bod cynlluniau ar waith yn dibynnu ar eu hanghenion, hyd yn oed pe bai'n rhaid i hyn ddigwydd mewn ambiwlans y tu allan i'r uned i ddechrau.



---

Mae meddygon ymgynghorol a gweithwyr proffesiynol o dimau amlddisgyblaethol arbenigol wedi parhau i fod ar gael yn ôl yr angen ac mewn modd amserol.

Roedd rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward o'r farn bod llif y cleifion ym mhob rhan o'r uned wedi gwella dros amser. Gwnaethant briodoli hyn i ganlyniadau cyflymach o brofion COVID-19; mae'r canlyniadau bellach yn cael eu dychwelyd o fewn dwy awr, yn hytrach na 48 awr. Mae cydlynnydd llif cleifion hefyd wedi ymuno â'r uned yn ddiweddar, sydd wedi helpu i oruchwyllo a datrys problemau bach wrth iddynt godi. Dywedwyd wrthym, os effeithir ar lif y cleifion, caiff materion eu trosglwyddo i'r uwch-nyrs a'u trafod yng nghyfarfodydd dyddiol y safle rheoli gwelyau lle cymerir camau i leihau'r pwysau ar yr uned.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty'r Tywysog Siarl

Ward: Uned Penderfyniadau Clinigol

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Rhagfyr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y cymerir camau mewn perthynas ag unrhyw broblemau a nodwyd yn yr Archwiliadau Pwynt Gofal mewn modd amserol a byddai AGIC yn disgwyl gweld gwelliant mewn cyfraddau cydymffurfio mewn archwiliadau yn y dyfodol yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol.	Safonau Iechyd a Gofal Cymru  Safon 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi	Mae dau brif faes sy'n peri pryder yn ymwneud â'r Archwiliadau Pwynt Gofal: 1. Yr amgylchedd cyffredinol o ran paentio a gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar y ward. Rhoddwyd gwybod am yr holl waith drwy'r uned ac mae rhifau cyfeirnod y gwaith ar gael. Ar ôl cael yr adroddiad, cysylltwyd â'r rheolwr ystadau a gadarnhaodd y bydd gwaith gynnal a chadw'r ardal yn cael ei adolygu a'i	Rheolwr Ystadau a'r Brif Nyrs	Mawrth 2021

			<p>flaenoriaethu ar ôl i'r pandemig ddod dan reolaeth.</p> <p>2. Roedd y fentiau yn llawn llwch mewn sawl ardal gan gynnwys y gegin. Mae'r fentiau yn y rhan fwyaf o'r uned bellach wedi cael eu glanhau. Fodd bynnag, mae angen rhannau newydd ar y system yn y gegin ac mae'r rhain wedi cael eu harchebu a byddant yn cael eu gosod unwaith y byddant wedi cyrraedd.</p>		
2	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd y cymerwyd camau pellach mewn ymateb i'r archwiliad Atal a Rheoli Heintiau a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2020. Yn ogystal, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod y systemau sydd ar waith ar hyn o bryd i fonitro a gwella safonau Atal a Rheoli Heintiau yn yr uned yn briodol i sicrhau y caiff y safonau Atal a Rheoli Heintiau gofynnol eu cyrraedd.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal Cymru</p> <p>Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Mae'r materion allweddol ar gyfer yr uned yn gysylltiedig â'r amgylchedd, sydd wedi'u nodi ym mhwynt 1.</p> <p>Ar ôl cael adroddiad yr archwiliad, gofynnodd y Pennaeth Nyrsio am archwiliad Atal a Rheoli Heintiau brys, ac mae'r canlyniadau wedi cynyddu i 88%. Mae angen i'r adran ystadau gymryd camau allweddol o hyd ac mae yn mynd i'r afael â hyn.</p> <p>Cynhelir Hapwiriadau Dyddiol gan reolwr y ward a chânt eu goruchwyllo gan yr uwch-nyrs a'r brif nyrs.</p> <p>Mae archwiliadau Pwynt Gofal misol yn parhau a bydd gan bob ardal gynllun gwella a fydd yn</p>	<p>Rheolwr Ystadau a'r Brif Nyrs</p>	<p>Mawrth 2021</p>

			cael ei fonitro gan y Brif Nyrs		
3	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC nad yw lefelau staffio yn effeithio ar effeithiolrwydd y gofal a ddarperir i gleifion ar hyn o bryd, ac y bydd unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad o niferoedd staffio yn yr uned yn helpu i leihau'r pwysau a wynebir gan y staff presennol.	Safonau Iechyd a Gofal Cymru Safon 7.1 Y Gweithlu	<p>Yn ystod y pandemig cytunwyd ar staff ychwanegol uwchlaw'r lefelau sefydledig ar gyfer yr uned er mwyn helpu i leihau'r pwysau ar yr uned. Fodd bynnag, mae llenwi'r sifftiau yn broblem er i geisiadau banc ac asiantaeth gael eu gwneud i'r banc staff 6 wythnos ymlaen llaw. Y cyfraddau llenwi; Hydref 2020; 64% sydd gyfwerth â 155 o sifftiau wedi'u llenwi ac 86 o sifftiau heb eu llenwi o hyd. Tachwedd 2020; 62% sydd gyfwerth â 131 o sifftiau wedi'u llenwi a 79 o sifftiau heb eu llenwi o hyd.</p> <p>Gwneir pob ymdrech i lenwi'r sifftiau drwy gynnig goramser i'r staff ar gyfraddau uwch fel y cytunwyd gan y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Y lefelau salwch ar gyfer yr uned ym mis Rhagfyr 2020 oedd 9.1%. Caiff niferoedd staff eu hadolygu yn dilyn y pandemig o fewn cynllun adolygu'r gwasanaeth.</p> <p>Mae heriau lefelau staffio is yn cael eu monitro drwy nifer o systemau gan gynnwys archwiliadau sicrwydd yn seiliedig ar ward, cofnodi digwyddiadau ar Datix,</p>	Yr Uwch-nyrs a'r Brif Nyrs	Gwaith Monitro Parhaus

			<p>Digwyddiadau Difrifol ac adborth gan gleifion (cwynion/canmoliaeth). Caiff y data eu triongli, nad yw'n dangos y perir mwy o niwed nac y ceir effaith andwyol ar ofal cleifion.</p> <p>Mae'r adolygiad o'r model staffio a threfniadau cyflenwi gwasanaethau yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol wedi dechrau. Ar hyn o bryd, darperir y niferoedd presennol gyda lle i 24 o welyau, a fydd ar gyfer yr uned yn unig. Yn seiliedig ar y swyddi gwag presennol (3 cyfwerth ag amser llawn), bydd yr uned wedi'i sefydlu'n llawn i'r model presennol erbyn mis Mawrth 2021.</p>		
4	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried neilltuo amser i'r staff yn ystod eu sifftiau dan gontract er mwyn helpu'r staff i ddysgu a datblygu, gan sicrhau y caiff yr amser pan nad ydynt yn gweithio ei ddiogelu.	Safonau Iechyd a Gofal Cymru Safon 7.1 Y Gweithlu	<p>Cyn y pandemig, roedd rheolwr yr uned yn defnyddio oriau gwneud i fyny staff yn fisol i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gwblhau. Fodd bynnag, oherwydd prinder staff am nifer o resymau gan gynnwys gwarchod, absenoldeb oherwydd salwch ac ynysu, nid yw hyn wedi bod yn bosibl.</p> <p>Mae'r holl hyfforddiant ystafell ddosbarth wedi cael ei ohirio ac mae'r gwasanaeth yn aros am ddyddiadau gan yr adran</p>	Rheolwr yr Uned	Mawrth 2021

			<p>hyfforddi a datblygu.</p> <p>Y cynllun wrth symud ymlaen yw sicrhau y rhoddir amser allweddol i'r staff i sicrhau eu bod yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol yn ystod oriau gwaith. Pan fydd dyddiadau hyfforddiant ar gael, bydd rheolwr yr uned yn trefnu lle i'r staff ar y cyrsiau gofynnol.</p>		
5	<p>Rhaid i'r gwasanaeth wella ei gydymffurfiaeth barhaus ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu staff, a darparu tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis i ddangos bod pob adolygiad hwyr wedi'i gwblhau.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal Cymru</p> <p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Y gydymffurfiaeth ar adeg yr archwiliad oedd 53.1%, a oedd yn seiliedig ar lefelau staffio cyffredinol yr uned. Mae 9 aelod o staff nad ydynt yn y gwaith ar hyn o bryd oherwydd cyfnod mamolaeth, gwarchod ac absenoldeb oherwydd salwch hirdymor y byddai eu hadolygiadau wedi dod i ben rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, ac ni ellir eu cwblhau nes y byddant yn dychwelyd i'r gwaith.</p> <p>Mae dyddiadau adolygiadau'r holl staff yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan yr uwch-nyrs a fydd yn uwchgyfeirio'r gydymffurfiaeth at y brif nyrs o fis i fis.</p> <p>Rhaid cydnabod bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu'r tîm i gynllunio a chwblhau'r</p>	Yr Uwch-nyrs a'r Brif Nyrs	Mawrth 2021

			adolygiadau ar gyfer y staff yn ddiogel, ond eir i'r afael â hyn pan fydd y lefelau uwchgyfeirio wedi gostwng.		
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Deborah Harris, Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 18 Ionawr 2021